

Senedd Cymru

**Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon,
a Chysylltiadau Rhyngwladol**

Gwrandawriad cyn penodi

Yr ymgeisydd a ffefrir ar gyfer
Cadeirydd Chwaraeon Cymru

Mawrth 2022



1. Cyflwyniad

Gwrandawriadau cyn penodi

1. Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud amrywiaeth o benodiadau cyhoeddus ar draws pob agwedd ar fywyd cyhoeddus. Caiff penodiadau cyhoeddus eu gwneud ar gyfer aelodau pwyllgorau sy'n arwain ac yn gwneud penderfyniadau ar wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Fel y nodwyd gan Lywodraeth Cymru, dylai cyrff cyhoeddus gael aelodau ar fyrddau sy'n adlewyrchu cymdeithas Cymru - pobl o bob cefndir - i'w helpu nhw i ddeall anghenion pobl a gwneud penderfyniadau gwell.¹
2. Mae'r penodiadau hyn yn uchel eu proffil ac yn gyfle i lunio a llywio llawer o'r gwasanaethau cyhoeddus y mae pobl Cymru yn eu defnyddio. Rhaid i Weinidogion Cymru wneud penodiadau cyhoeddus rheoleiddiedig yn unol â'r egwyddorion a nodir yn y Cod Llywodraethu ar gyfer Penodiadau Cyhoeddus. Mae'r Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus² yn gyfrifol am roi sicrwydd annibynnol bod penodiadau yn cydymffurfio â'r Cod.
3. Mae Gweinidogion Cymru a'r Senedd wedi cytuno y bydd Pwyllgorau'r Senedd yn gwneud gwaith craffu cyn penodi mewn perthynas â rhai o'r Cadeiryddion a benodir er mwyn gwella'r broses graffu a sicrhau bod y broses penodiadau cyhoeddus yn fwy tryloyw. Bydd gwaith craffu cyn penodi ar ffurf gwrandawriad cyn penodi'r ymgeisydd a ffefrir yn cael ei wneud gan y Pwyllgor perthnasol. Mater i'r pwyllgor perthnasol fydd penderfynu a yw am gynnal gwrandawriad cyn penodi ai peidio.
4. Mae rhestr o'r penodiadau gweinidogol a all fod yn destun gwrandawriadau cyn penodi wedi'i chymeradwyo gan Lywodraeth Cymru, ac fe'i hadolygir yn rheolaidd. Mae Cadeirydd Chwaraeon Cymru wedi'i gynnwys ar y rhestr honno.

Chwaraeon Cymru

5. Chwaraeon Cymru yw'r sefydliad cenedlaethol sy'n gyfrifol am ddatblygu a hyrwyddo chwaraeon a gweithgarwch corfforol yng Nghymru, a hynny ar lefel elft ac ar lawr gwlad. Dyma brif gynghorydd Llywodraeth Cymru ar chwaraeon, ac mae'n cefnogi'r gwaith o gyflawni ei blaenoriaethau strategol.

¹ <https://llyw.cymru/penodiadau-cyhoeddus>

² <https://publicappointmentscommissioner.independent.gov.uk/>

- 6.** Mae Bwrdd Chwaraeon Cymru yn gyfrifol am lywodraethu Chwaraeon Cymru ac Ymddiriedolaeth Cyngor Chwaraeon Cymru. Rôl y Bwrdd yw cadarnhau ei fod yn fodlon bod strwythur llywodraethu priodol ar waith, a chraffu ar berfformiad y weithrediaeth a'r modd y mae'r sefydliad yn cyflawni Gweledigaeth Chwaraeon Cymru.
- 7.** Mae Bwrdd Chwaraeon Cymru yn cynnwys Cadeirydd, Is-Gadeirydd a hyd at ddeuddeg o aelodau eraill. Caiff pob un o'r rolau hyn eu penodi gan Lywodraeth Cymru. Mae'r Bwrdd yn cynnwys cynrychiolwyr o groestoriad eang o wahanol broffesiynau ac aelodau ag arbenigedd a phrofiad perthnasol i chwaraeon cymunedol a chwaraeon elît, fel ei gilydd. Adeg **Adroddiad Blynyddol 2020-21**, roedd 57 y cant o aelodau'r Bwrdd yn fenywod, roedd 14 y cant ohonynt yn aelodau o gymunedau lleiafrifoedd ethnig, ac roedd 7 y cant yn ystyried bod ganddynt anabledd.
- 8.** Mae'r Weithrediaeth, o dan arweiniad y Prif Weithredwr, yn atebol i'r Bwrdd mewn perthynas â datblygu a gweithredu strategaeth a pholisiau ac adrodd arnynt. Mae'r Weithrediaeth yn cwrdd yn rheolaidd – fel arfer, bob pythefnos – i drafod materion corfforaethol a chytuno arnynt. Cynhelir cyfarfodydd misol ffurfiol sy'n dilyn agenda, a chedwir cofnodion ohonynt. Mae'r cynnydd a wneir yn erbyn y Cynllun Busnes yn cael ei gofnodi a'i fonitro'n chwarterol.
- 9.** Mae gan Chwaraeon Cymru chwe **“bwriad strategol”**. Y bwriadau hyn yw:
- **Canolbwyntio ar yr unigolyn:** Anghenion a chymhelliant yr unigolyn yn arwain y ddarpariaeth, boed yn dechrau arni, yn anelu am gynnydd neu'n ceisio rhagoriaeth ar lwyfan y byd.
 - **Rhoi dechrau gwych i bob person ifanc:** Pob person ifanc â sgiliau, hyder a chymhelliant i alluogi iddyn nhw fwynhau a gwneud cynnydd drwy chwaraeon; gan roi iddyn nhw sylfeini i fyw bywyd actif, iach a chyfoethog.
 - **Sicrhau bod pawb yn cael y cyfle i fod yn actif drwy chwaraeon:** Chwaraeon yn gynhwysol ac yn darparu profiad gwych i bawb.
 - **Dod â phobl at ei gilydd ar gyfer y tymor hir:** Sector chwaraeon cydweithredol, cynaliadwy a llwyddiannus sy'n cael ei arwain gan wybodaeth a dysgu ar y cyd.
 - **Dangos manteision chwaraeon:** Gwelir tystiolaeth o effaith chwaraeon ac mae cyrhaeddiad chwaraeon yn cael ei deall yn llawn, ei werthfawrogi, ei arddangos a'i ddathlu ledled Cymru.

- **Bod yn sefydliad gwerthfawr iawn:** Chwaraeon Cymru yn sefydliad uchel ei barch sy'n ceisio gorgyflawni drwy ddarparu gwasanaeth o'r radd flaenaf drwy ein staff gwerthfawr.

10. Mae £31miliwn wedi'i ddyrannu i Chwaraeon Cymru yng nghyllideb ddrafft 2022-23. Mae hyn yn debyg i'r hyn a ddyrannwyd yn 2021-22. Mae Chwaraeon Cymru hefyd yn dosbarthu grantiau'r Loteri Genedlaethol (£13miliwn yn 2019-20) i chwaraeon elîit ac ar lawr gwlad.

2. Y broses recriwtio a dewis ymgeiswyr

Y broses recriwtio

11. Hysbysebwyd y rôl am ychydig dros bedair wythnos rhwng 13 Medi a 13 Hydref 2021.

12. Cafodd ei hysbysebu ar wefan Llywodraeth Cymru, gwefan penodiadau cyhoeddus Swyddfa'r Cabinet ac ar wefan Chwaraeon Cymru. Trefnwyd cyhoeddusrwydd pellach hefyd drwy hysbysebion y talwyd amdanynt ar nifer o wefannau perthnasol, a baneri rhaglennol ar gyfryngau cymdeithasol a oedd yn targedu rhanddeiliaid chwaraeon ledled y DU. Roeddent yn cynnwys:

- Rhwydwaith Diversity Jobsite (rhestru ar-lein);
- Octave (radio digidol);
- Tudalennau chwaraeon o holl deitlau Reach Plc yng Nghymru;
- Fish4Jobs (rhestru ar-lein);
- Lleol (rhestru ar-lein);
- Safle Swyddi (rhestru ar-lein);
- Golwg (rhestru ar-lein);
- Y Cymro (rhestru baner ar-lein).

13. Gwnaeth Chwaraeon Cymru a Llywodraeth Cymru hefyd ddefnydd o rwydweithiau perthnasol a rhestrau postio i hyrwyddo'r cyfle. Cysylltwyd yn uniongyrchol ag unigolion, a chysylltwyd â chysylltiadau cydraddoldeb ac amrywiaeth hefyd fel rhan o'r broses recriwtio.

14. Rhoddwyd pecyn gwybodaeth i ymgeiswyr a oedd yn cynnwys amlinelliad o'r canlynol: rôl Cadeirydd Chwaraeon Cymru; manyleb person; gwybodaeth berthnasol am dâl ac ymrwymiad amser (gweler Atodiad A).

Dewis ymgeiswyr

15. Gofynnwyd i ymgeiswyr ddarparu datganiad personol a CV. Daeth cyfanswm o ddeg cais i law. Roedd dewis ymgeisydd yn dilyn y broses ganlynol:

Asesiadau panel: Cyfarfu Panel Asesu Ymgynghorol ar 19 Tachwedd 2022 i gynnal ymarfer sifftio. Yn dilyn hyn, aeth chwe ymgeisydd ymlaen i'r cam nesaf.

Sesiwn rhanddeiliaid: Cynhaliwyd sesiwn rhanddeiliaid lle bu ymgeiswyr yn arwain trafodaeth 30 munud gyda chwe rhanddeiliad ar y pwnc o weithio mewn partneriaeth. Bu'r panel rhanddeiliaid yn sgorio'r ymgeiswyr yn erbyn tri maen prawf: cynnwys, sgiliau cadeirio, a'r gallu i ymdrin â gwahanol safbwyntiau ac ymateb iddynt. Nid oedd aelodau'r Panel Asesu Ymgynghorol yn bresennol yn y sesiwn rhanddeiliaid.

Cyfweliad: Gofynnwyd cyfres o gwestiynau i chwe ymgeisydd a oedd yn bodloni'r meini prawf hanfodol agosaf. Cynhaliwyd y cyfweliadau dros ddau ddiwrnod, gan bara tua 45 munud yr un.

16. Fel rhan o'r trafodaethau ar ddiwedd y broses gyfweld, hysbyswyd Aelodau'r Panel Asesu Ymgynghorol am y sgoriau a'r sylwadau o'r sesiwn rhanddeiliaid cyn gwneud penderfyniadau terfynol ynghylch a ellid penodi'r ymgeiswyr.

17. Roedd y Panel Asesu Ymgynghorol o'r farn y gellid penodi tri ymgeisydd.

18. Cyflwynwyd adroddiad cyfweliad llawn i'r Dirprwy Weinidog Celfyddydau a Chwaraeon a'r Prif Chwip. Roedd yr adroddiad hwn yn cynnwys naratif ar atebion pob ymgeisydd yn erbyn pob cwestiwn cyfweliad er mwyn galluogi'r Dirprwy Weinidog i nodi'r ymgeisydd yr oedd yn ei ffafrio.

3. Yr ymgeisydd y mae Llywodraeth Cymru yn ei ffafrio yw: Y Farwnes Grey-Thompson, DBE, DL

19. Mae Tanni Grey-Thompson yn aelod traws-feinciol o Dŷ'r Arglwyddi ac yn gyn-Baralympiad. Ganed y Farwnes Grey-Thompson yng Nghaerdydd a dechreuodd rasio cadair

olwyn yn 12 oed. Aeth ymlaen i gynrychioli Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon mewn pump o Gemau Paralympaidd (gan ennill 11 medal Aur) a Chymru mewn tair o Gemau'r Gymanwlad.

20. Derbyniodd radd mewn Gwleidyddiaeth a Gweinyddiaeth Gymdeithasol o Brifysgol Loughborough. Yn ystod ei gyrfa, mae wedi bod yn aelod o nifer o fyrddau gan gynnwys Cyngor Chwaraeon Cymru, Marathon Llundain, Transport for London a'r BBC. Ymhlith y penodiadau presennol eraill, hi yw Cadeirydd presennol ukactive a Chynllun Gwobr Dug Caeredin.

21. Derbyniodd MBE yn 1992, OBE yn 2000, DBE yn 2005 a chafodd ei phenodi'n Aelod Traws-feinciol Annibynnol yn Nhŷ'r Arglwyddi yn 2010.

4. Gwrandawriad cyn penodi

Rhag-gyfarfod

22. Rhoddwyd y wybodaeth ganlynol i aelodau'r Pwyllgor cyn y gwrandawriad cyn penodi:

- ffurflen gais, CV a datganiad personol y Farwnes Grey-Thompson;
- yr hysbyseb swydd a disgrifiad o sut yr hysbysebwyd y swydd wag;
- disgrifiad swydd a manyleb y person;
- y ffurflen gais a'r meini prawf ar gyfer asesu;
- data dienw ar amrywiaeth yr ymgeiswyr a oedd yn cynnwys amlinelliad o ymgeiswyr ar bob cam o'r broses recriwtio.

23. Gofynnodd y Pwyllgor hefyd i'r Farwnes Grey-Thompson lenwi holiadur byr. Mae'r cwestiynau a'r atebion a ddarparwyd gan y Farwnes Grey-Thompson i'w gweld yn Atodiad B.

Y gwrandawriad

24. Cynhaliwyd y gwrandawriad ddydd Mercher 2 Mawrth 2022, pan ofynnwyd amrywiaeth o gwestiynau i'r Farwnes Grey-Thompson ynghylch sut yr oedd yn bwriadu ymgymryd â rôl Cadeirydd Chwaraeon Cymru. Roedd y fframwaith ar gyfer cwestiynau yn seiliedig ar yr holiadur cyn y gwrandawriad gyda'r bwriad o archwilio'r themâu hyn ymhellach.

25. Mae crynodeb o'r meysydd trafod allweddol i'w weld isod. Mae trawsgrifiad llawn o'r gwrandawriad ar gael ar Gofnod y Trafodion y Senedd³.

Gwybodaeth a phrofiad

26. Roedd y Pwyllgor yn teimlo bod profiad y Farwnes Grey-Thompson fel athletwraig ac yn gweithio mewn amrywiaeth o leoliadau chwaraeon yn golygu bod ganddi gefndir cryf er mwyn ymgymryd â'r rôl. Mae hyn yn cynnwys amser a dreuliwyd fel athletwraig elitaidd, yn ogystal â hyfforddwr ac fel cadeirydd ac aelod o nifer o awdurdodau chwaraeon. Mae ei phrofiad a'i gwaith fel aelod traws-feinciol o Dŷ'r Arglwyddi hefyd yn golygu ei bod hi'n addas iawn ar gyfer y rôl.

Heriau sy'n wynebu chwaraeon a gweithgarwch corfforol yng Nghymru

27. Nododd y Pwyllgor sylwadau'r Farwnes Grey-Thompson am yr heriau sy'n wynebu chwaraeon a gweithgarwch corfforol yng Nghymru. Roedd y Pwyllgor yn cytuno â'i barn ar yr hyn sydd angen ei wneud i wella cyfranogiad. Dywedodd, p'un a yw'r cyfranogiad yn hamddenol neu ar lefel elitaidd, mai'r allwedd yw datgloi'r rhwystrau i gymryd rhan ac y dylid annog pobl i gymryd rhan mewn chwaraeon waeth beth fo lefel eu ffitrwydd, gan ddweud ei bod hi'n iawn peidio â bod yn dda mewn chwaraeon.

28. Trafododd y Pwyllgor y rhwystrau posibl i gymryd rhan mewn chwaraeon, gan gynnwys rhwystrau ariannol. Croesawodd y Pwyllgor ei barn ar werth presgripsiwn cymdeithasol ar gyfer chwaraeon a gweithgarwch corfforol.

29. Yn ystod y drafodaeth, soniodd y Farwnes Grey-Thompson am bwysigrwydd ysbrydoli'r genhedlaeth nesaf i gymryd rhan mewn chwaraeon a bod gweithgaredd corfforol yn bwysig. Dywedodd y bydd rôl Chwaraeon Cymru yn hyn o beth yn bwysig yn y dyfodol. Yn ogystal, nododd fod bod yn actif yn gorfforol drwy ddysgu chwarae offeryn cerddorol ond cerdded i'r wers yn golygu ei bod hi'n deall bod cyfleoedd i weithio gyda sefydliadau eraill y tu allan i'r byd chwaraeon er mwyn cyrraedd nodau eraill fel y nodau Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Gweithio mewn partneriaeth

30. Gofynnodd y Pwyllgor i'r Farwnes Grey-Thompson ynghylch gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau sy'n derbyn cyllid gan Chwaraeon Cymru. Yn ei holiadur cyn y gwrandawriad, dywedodd mai ei gwaith fel Cadeirydd fydd datblygu perthnasoedd parhaus a helpu i greu rhai

³ <https://record.senedd.wales/Committee/12632>

newydd. Yn ystod y gwrandawriad, nododd hefyd fod gweithio mewn partneriaeth hefyd yn gyfle i ddysgu oddi wrth ein gilydd. Dywedodd ein bod ni i gyd eisiau'r un peth yn y pen draw.

5. Safbwynt y Pwyllgor

31. Nid ydym yn gweld unrhyw reswm i beidio â chymeradwyo'r Farwnes Grey-Thompson i gael ei phenodi yn Gadeirydd Chwaraeon Cymru.

Argymhelliad 1. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod y Farwnes Grey-Thompson yn cael ei phenodi'n Gadeirydd Chwaraeon Cymru.

32. Rydym o'r farn bod penodi Cadeirydd Chwaraeon Cymru yn un pwysig, ac rydym yn croesawu'r cyfle i graffu cyn penodi. Mae cymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgaredd corfforol, ar bob lefel, ar bwynt tyngedfennol wrth i bethau wella o effeithiau pandemig Covid-19. Felly mae sicrhau bod y person cywir yn cael ei benodi i'r swydd hon yn bwysig.

33. Rydym o'r farn, er mwyn cefnogi'r rôl hon, fod yn rhaid cael digon o gyfleoedd i ymgysylltu'n gynnar yn ystod cyfnod y Cadeirydd. Mae hyn yn cynnwys cyfarfodydd ag amrywiaeth o randdeiliaid gan gynnwys Aelodau o'r Senedd a'r Pwyllgor hwn. Rydym yn teimlo fod cael trafodaethau fel hyn gyda phartneriaid allweddol yn hanfodol er mwyn datblygu gwybodaeth y Cadeirydd yn ogystal â datblygu perthnasoedd gwaith. Byddem yn croesawu'r cyfle i gwrdd â'r Farwnes Grey-Thompson cyn gynted ag sy'n ymarferol bosibl pan fydd yn dechrau ar ei chyfnod fel Cadeirydd Chwaraeon Cymru. Rydym hefyd wedi'n sicrhau y bydd hi ar gael am fwy na'r isafswm ymrwymiad amser o ddau ddiwrnod yr wythnos os bydd angen.

Argymhelliad 2. Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylid ystyried sicrhau bod cyfarfod anffurfiol â'r Pwyllgor hwn yn cael ei gynnal yn gynnar a thrwy gydol cyfnod Cadeirydd Chwaraeon Cymru.

34. Nodwyd hefyd bod yr holl ymgeiswyr a wnaeth cais ar gyfer y swydd o gefndir Gwyn. Er ein bod yn gwerthfawrogi'r camau a gymerwyd gan Lywodraeth Cymru i rannu'r hysbyseb swydd ag amrywiaeth eang iawn o sefydliadau, byddem yn argymhell eich bod yn ystyried pa gamau pellach y gallwch eu cymryd i gynyddu amrywiaeth ethnig ymgeiswyr ar gyfer penodiadau cyhoeddus.

Argymhelliad 3. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn ystyried pa gamau pellach y gall eu cymryd i gynyddu amrywiaeth ethnig ymgeiswyr ar gyfer penodiadau cyhoeddus.

Atodiad A: Manyleb y person a disgrifiad swydd Cadeirydd Chwaraeon Cymru

1. Manyleb y Swydd a'r Person

SWYDDOGAETH Y CADEIRYDD

Byddwch yn atebol i'r Dirprwy Weinidog Celfyddydau a Chwaraeon am berfformiad Chwaraeon Cymru a chyflawni blaenoriaethau strategol. Un rhan hanfodol o rôl y Cadeirydd yw datblygu a chynnal perthynas agos â'r Dirprwy Weinidog ac aelodau allweddol o Lywodraeth Cymru.

Arweinyddiaeth

- Darparu arweinyddiaeth effeithiol i Chwaraeon Cymru a'i Fwrdd, gan ddiffinio a datblygu ei gyfeiriad strategol a chynrychioli barn y Bwrdd i'r cyhoedd.
- Gweithio gydag aelodau eraill i gyflawni swyddogaethau'r Bwrdd a fydd yn cynnwys:
 - Cyflawni cynllun corfforaethol/busnes y Bwrdd mewn ymateb i Lythyr Cylch Gorchwyl y Dirprwy Weinidog Celfyddydau a Chwaraeon.
 - Sicrhau bod trefniadau llywodraethu yn gadarn a bod uniondeb a phriodoldeb yng ngwaith Chwaraeon Cymru.
 - Rhoi polisiau a blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar waith, gan gynnwys materion cyfle cyfartal ac amrywiaeth, drwy weithio gyda rhanddeiliaid allweddol i sicrhau dull integredig o ddarparu chwaraeon yng Nghymru.
 - Manteisio i'r eithaf ar ddiwyddiadau chwaraeon cenedlaethol a rhyngwladol proffil uchel mawr drwy ddarparu gwaddol chwaraeon gynaliadwy.
 - Mynd i'r afael ag anghenion chwaraeon yn genedlaethol ac yn lleol, cymryd cyfrifoldeb am benderfynu sut y caiff adnoddau eu defnyddio i gyflawni amcanion strategol Chwaraeon Cymru.
 - Cefnogi ymdrechion Llywodraeth Cymru i gynyddu lefelau gweithgarwch corfforol ym mhoblogaeth Cymru.

Perthynas â'r Prif Weithredwr

- Sefydlu a meithrin perthynas waith gref, effeithiol a chefnogol gyda'r Prif Weithredwr, gan ddarparu cymorth a chynghor tra'n parchu cyfrifoldeb gweithredol;
- Cynnal gwerthusiad blynyddol i sicrhau bod y Prif Weithredwr yn cael ei ddwyn i gyfrif am gyflawni amcanion strategol y cytunwyd arnynt. Darparu cyfleoedd hyfforddi a datblygu perthnasol.

Llywodraethiant

- Sicrhau bod y trefniadau llywodraethu yn gweithio yn y ffordd fwyaf effeithiol.
- Adeiladu Bwrdd effeithiol, gan roi cychwyn ar newid a chynllunio olyniaeth ar gyfer penodiadau'r Bwrdd drwy broses a reoleiddir gan OCPA;
- Ymgynghori ag aelodau'r Bwrdd a'u harfarnu yn flynyddol ar eu rolau ac asesu eu perfformiad;
- Cynllunio, llywyddu a hwyluso cyfarfodydd Bwrdd a phwyllgorau;
- Sicrhau ymrwymiad Chwaraeon Cymru i gydraddoldeb ac amrywiaeth.

Cyfathrebu a Chysylltiadau Allanol

- Gweithredu fel llysgennad i Chwaraeon Cymru;
- Hyrwyddo perthnasoedd effeithiol rhwng aelodau anweithredol, y tîm gweithredol a staff Chwaraeon Cymru;
- Datblygu, rheoli a chynnal perthnasoedd da gyda phartïon â diddordeb yn genedlaethol ac yn lleol. Mae partïon â diddordeb yn cynnwys:
 - Llywodraeth Cymru
 - Cyrff Llywodraethu Chwaraeon
 - Cymdeithasau Chwaraeon
 - awdurdodau lleol

- cymunedau lleol
- y sector busnes
- y sector gwirfoddol
- cynrychiolwyr cymunedol etholedig
- y cyfryngau

MANYLEB Y PERSON

Hanfodol

- Profiad o arwain sefydliad proffil uchel ac yn gallu darparu parhad a sefydlogrwydd i sefydliad.
- Dealltwriaeth o fanteision chwaraeon a gweithgarwch corfforol ar bob lefel a gwybodaeth dda am y byd chwaraeon yng Nghymru.
- Sgiliau cyfathrebu cryf gyda'r gallu i feithrin perthnasoedd priodol â'r holl randdeiliaid, gan gynnwys Gweinidogion a'r Llywodraeth, Aelodau'r Bwrdd, y wasg a'r cyfryngau, gan ddefnyddio amrywiaeth o safbwyntiau a phrofiadau byw fel y bo'n briodol.
- Dealltwriaeth dda o fywyd cyhoeddus Cymru a pholisïau a gwerthoedd Llywodraeth Cymru, er mwyn arwain sefydliad sy'n cyflawni'n effeithiol ar gyfer Gweinidogion Cymru
- Meddu ar sgiliau craffu a dadansoddi rhagorol i gefnogi a herio'r Weithrediaeth yn effeithiol, er mwyn sicrhau bod Chwaraeon Cymru yn bodloni ei nodau, amcanion a thargedau perfformiad;
- Y gallu i gyflawni strategaeth sefydledig, sy'n cefnogi gwerthoedd ac ymddygiadau Llywodraeth Cymru a Chwaraeon Cymru, gan gynnwys ymrwymiad cryf i egwyddorion Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol;
- Gweithredu mewn ffordd sy'n hyrwyddo safonau uchel o briodoldeb a chyllid cyhoeddus, gan sicrhau bod Chwaraeon Cymru'n cyflawni gwerth am arian o fewn fframwaith o arfer gorau;
- Arwain y broses cynllunio corfforaethol, gan gynnwys cytuno ar gynlluniau cyllideb blynyddol ar gyfer rhaglenni gweithredol a gweithgareddau corfforaethol;

- Meddu ar ddealltwriaeth glir o 'Saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus' Nolan ac ymrwymiad iddynt;
- Ymrwymo i arweinyddiaeth gynhwysol ac arwain drwy esiampl mewn ffordd sy'n parchu ac yn hyrwyddo amrywiaeth a chyfle cyfartal. Y gallu i arwain a meithrin Bwrdd cynhwysol ac amrywiol.

Dymunol

- Byddem yn croesawu ymgeiswyr sydd â phrofiad mewn maes cysylltiedig, megis iechyd, datblygu cymunedol neu addysg.

Atodiad B: Holiadur wedi'i gwblhau gan y Farwnes Grey-Thompson cyn gwrandawriad y penodiad

<p>Tell us a little bit about yourself and your background (for committee session).</p>	<p>Dywedwch ychydig wrthym amdanoch chi eich hun a'ch cefndir (ar gyfer sesiwn y pwyllgor).</p>
<p>Cefais fy ngeni yng Nghaerdydd a'm magu yn y Mynydd Bychan. Es i i Ysgol Gynradd Birchgrove. Roedd fy addysg uwchradd ym Mhenarth (St Cyres – yr unig ysgol hygyrch yn ne Cymru). Roedd fy rhieni'n credu'n gryf mewn gweithgaredd corfforol a chwaraeon i gadw'n heini ac yn iach ac yn 12 oed dechreuais rasio cadair olwyn ac ymunais â Chlwb Athletau Pen-y-bont ar Ogwr. Cefais radd mewn Gwleidyddiaeth a Gweinyddiaeth Gymdeithasol o Brifysgol Loughborough. Es ymlaen i gystadlu dros Brydain Fawr mewn 5 o Gemau Paralympaidd a thros Gymru mewn 3 Gêm Gymanwlad (Capten Tîm yn 2006). Rwyf wedi eistedd ar nifer o Fyrddau ac ar hyn o bryd yn Gadeirydd ukactive (a fydd yn dod i ben yn fuan) a Gwobrau Dug Caeredin. Rwy'n briod ac mae gennyf un ferch.</p>	
<p>Question 1: What is your motivation for applying to be the Chair of Sport Wales?</p>	<p>Cwestiwn 1: Beth yw eich cymhelliant dros wneud cais i fod yn Gadeirydd ar sefydliad Chwaraeon Cymru?</p>
<p>Cefais fudd sylweddol o gael fy magu yng Nghymru a gallu cael mynediad at weithgarwch corfforol a chwaraeon da. Nid yn unig mae'n gyfle i roi rhywbeth yn ôl i mewn i'r system a roddodd gymaint i mi, ond hefyd y cyfle i gysylltu gwahanol feysydd gwaith i helpu i sicrhau gwahaniaeth i iechyd a lles (corfforol a meddyliol). Gan mai dyma'r Bwrdd cyntaf yr oeddwn yn aelod ohono fel athletwr oedd yn cystadlu, mae'n fraint cael y cyfle i ymgeisio am y rôl hon. Fel cenedl, nid ydym mor heini ac iach ag y gallem fod ac er mwyn bod yn gystadleuol ar lwyfan y byd, boed mewn busnes neu chwaraeon, mae angen i ni newid rhai patrymau ymddygiad.</p>	
<p>Question 2: Why do you think you are well-suited for the role?</p>	<p>Cwestiwn 2: Pam yr ydych o'r farn eich bod chi'n ymgeisydd addas ar gyfer y rôl hon?</p>
<p>Rwyf wedi bod yn athletwraig, yn weinyddwr, yn swyddog datblygu chwaraeon, yn hyfforddwr, wedi gweithio ar ID Talent a Rhaglenni Perfformiad, wedi bod yn aelod o nifer o Fyrddau ac rwyf bellach yn Seneddswraig yn San Steffan felly gallaf weld materion o nifer o safbwyntiau. Rwyf wedi arfer gweithio gyda grwpiau eithaf gwahanol o bobl a dod â nhw at ei gilydd i ddod o hyd i atebion. Mae yna lawer o bobl angerddol yn y diwydiant ehangach gyda diddordebau cystadleuol y mae angen eu cefnogi, eu harwain, ac ar adegau eu cyfeirio at y nod terfynol. Yn amlwg, o fy nghyfnod fel athletwr elitaidd, mae chwaraeon yn</p>	

<p>bwysig i mi ond mae gweithgarwch corfforol a'r ddyletswydd gofal sydd gennym ni i'r rhai mewn chwaraeon hefyd yn bwysig i mi.</p>	
<p>Question 3: What are the three main outcomes that you want to achieve during your tenure?</p>	<p>Cwestiwn 3: Beth yw'r tri phrif ganlyniad yr ydych am eu cyflawni yn ystod eich cyfnod yn y rôl?</p>
<p>Rwyf wedi darllen yr holl ddogfennau cyhoeddus y gallwn ddod o hyd iddynt mewn perthynas â Chwaraeon Cymru. Mae'n amlwg y bydd yna raglenni gwaith a thrafodaethau eraill sydd angen eu cael ac mae nifer o flaenoriaethau eisoes ar waith. Yr ateb amlycaf yw helpu i redeg Chwaraeon Cymru gydag uniondeb, diwydrwydd a thosturi, gan helpu Chwaraeon Cymru i gyflawni ei dargedau a bod yn bartner da gyda Llywodraeth Cymru, lle gallwn herio ein gilydd ar adegau. Rwyf am ei gwneud yn haws i bobl gynnwys gweithgarwch corfforol yn eu bywydau bob dydd. Mae hyn yn amlwg yn gysylltiedig â chael lle diogel i fyw a'r gallu i fwyta. Rwyf am roi'r cyfle gorau i athletwyr dawnus gynrychioli Cymru a Phrydain Fawr ac i'r genedl fod yn falch o'u cyflawniadau. Yn olaf, rwyf am allu gweithio ar draws holl feysydd y Llywodraeth i helpu i gydgyssylltu meddwl a gwaith.</p>	
<p>Question 4: How will you work with individuals and organisations in receipt of funding from Sport Wales and those you seek to influence to increase participation in sporting activity?</p>	<p>Cwestiwn 4: Sut y byddwch yn gweithio gydag unigolion a sefydliadau sy'n cael cyllid gan Chwaraeon Cymru a'r rhai yr ydych yn ceisio dylanwadu arnynt i gynyddu cyfranogiad mewn chwaraeon?</p>
<p>Bydd nifer o berthnasoedd eisoes gan Chwaraeon Cymru. Fy ngwaith fel Cadeirydd fydd datblygu perthnasoedd parhaus ond hefyd helpu i greu rhai newydd. Mae'n ymwneud â bod yn wirioneddol glir ble mae'r ffiniau, beth yw cyfrifoldeb pawb a sut rydym yn gweithio gyda'n gilydd i gyflawni'r gorau i Gymru er budd pawb. Mae sgysiau gonest yn rhan bwysig iawn o'r broses. Mae'n golygu cael meddwl agored ynglŷn â phwy y gallwn weithio gyda nhw a'r cysylltiadau y gall sefydliadau eraill eu gwneud â'r boblogaeth. Mae cymhelliant pawb dros fod yn actif a chymryd rhan mewn chwaraeon yn wahanol ac mae'n rhaid i ni ddod o hyd i ffyrdd sy'n cysylltu â nhw</p>	
<p>Question 5: How will you work in a way that maintains independence from Welsh Government whilst also trying to influence the government to achieve the outcomes for</p>	<p>Cwestiwn 5: Sut y byddwch yn gweithio mewn ffordd sy'n cynnal annibyniaeth y sefydliad o Lywodraeth Cymru, tra hefyd yn ceisio dylanwadu ar y Llywodraeth i gyflawni'r canlyniadau i sefydliadau ac</p>

<p>organisations and individuals which Sport Wales has prioritised?</p>	<p>unigolion y mae Chwaraeon Cymru wedi'u blaenoriaethu?</p>
<p>Rôl y Cadeirydd yw helpu i arwain y sefydliad a chefnogi'r tîm ond hefyd darparu sianel gyfathrebu i Lywodraeth Cymru. Mae'n golygu bod yn glir ynghylch y strategaeth ar gyfer y sefydliad, darparu data a gwybodaeth gywir a gweithio mewn modd cydweithredol â Llywodraeth Cymru. Efallai y bydd rhai sgysiau anodd ar brydiau ond mae'n rhaid i ni i gyd gydnabod bod yna flaenoriaethau sy'n cystadlu yn erbyn ei gilydd. Bydd Llywodraeth Cymru ar adegau yn herio, a hynny'n briodol, y gwaith y mae Chwaraeon Cymru yn ei wneud. Rwyf wedi gweithio mewn nifer o feysydd lle mae cynnal annibyniaeth yn ogystal â pherthynas waith agos yn bwysig.</p>	
<p>Question 6: How will you work with Senedd Members, Senedd committees and other stakeholders?</p>	<p>Cwestiwn 6: Sut y byddwch yn gweithio gydag Aelodau o'r Senedd, pwyllgorau'r Senedd a rhanddeiliaid eraill?</p>
<p>Bydd proses o ddeall pwy yw'r bobl allweddol, y pwyllgorau a'r rhanddeiliaid. Byddaf eisoes yn adnabod llawer ohonynt. Rhan fawr o fy amser ar y dechrau fydd cysylltu â'r bobl hynny wrth fwrw ymlaen â'r gwaith o ddydd i ddydd o Gadeirio Chwaraeon Cymru. Mae'n bwysig gwrando a chlywed yr hyn y mae pobl yn ei ddweud. Bydd nifer o gyfarfodydd wedi'u trefnu o fewn proses y Llywodraeth ond mae gwneud amser y tu allan i hynny hefyd yn werthfawr. Drwy gydol y broses yr wyf wedi bod drwyddi hyd yn hyn, mae wedi bod yn amlwg yr agenda hon yn bwysig iawn i bobl a'u bod eisiau sicrhau ei bod yn gweithio hyd eithaf gallu pawb.</p>	